



Agweddau cynulleidfaoedd y
DU at y cyfryngau darlledu
Crynodeb o'r canfyddiadau

Dogfen Ymchwil

Dyddiad cyhoeddi: 7 Gorffennaf 2017

Crynodeb gweithredol

Cefndir

Mae'r adroddiad hwn yn archwilio agweddau a barn oedolion y DU ynghylch darlledu ar y teledu a'r radio, yn ogystal ag agweddau cysylltiedig fel safonau rhaglenni, hysbysebion a rheoleiddio. Mae'n crynhoi'r canfyddiadau a nodir yn y pecyn siartiau atodol ar gyfer y dadansoddiad o ganfyddiadau'r ymchwil (Atodiad 1).

Mae'r canfyddiadau ymchwil o astudiaeth Traciwr Cyfryngau Ofcom yn darparu ffynhonnell wybodaeth werthfawr ynghylch agweddau defnyddwyr, ac yn helpu i lywio gwaith Ofcom ar safonau darlledu.

O dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, mae gan Ofcom ddyletswydd i lunio ac, o bryd i'w gilydd, diwygio Cod ar gyfer gwasanaethau teledu a radio, sy'n ymwneud â safonau rhaglenni. Mae hyn yn cynnwys amddiffyn plant dan 18 oed, rhoi safonau a dderbynnir yn gyffredinol ar waith er mwyn darparu amddiffyniad digonol rhag deunydd niweidiol neu dramgwyddus, nawdd, gosod cynnyrch mewn rhaglenni teledu, a thegwch a phreifatrwydd. Y Cod Darlledu yw enw hwn, a daeth i rym ym mis Gorffennaf 2005.

Mae Ofcom yn cydnabod bod barn pobl ynghylch beth yw'r safonau a dderbynnir yn gyffredinol yn gallu newid dros amser, ac felly y dylid eu harchwilio drwy ymchwil defnyddwyr parhaus. Mae'r adroddiad hwn yn un o amrywiaeth o ffynonellau mae Ofcom yn eu defnyddio i gyflawni ei ddyletswyddau yng nghyswllt safonau darlledu.

Mae adroddiad *Agweddau Cynulleidfaoedd y DU at y Cyfryngau Darlledu* eleni yn dangos bod barn ac agweddau oedolion wedi aros yn eithaf cyson dros amser.

Barn ynghylch ansawdd rhaglenni teledu

Mae agweddau at safonau rhaglenni yn eithaf cyson, ac nid oes llawer o newid wedi bod yn y farn ynghylch ansawdd rhaglenni teledu ers 2008. Mae data 2016 yn dangos bod y mwyafrif o oedolion yn y DU (54%) yn teimlo bod ansawdd rhaglenni wedi aros yr un fath. Mae tri oedolyn o bob deg (29%) yn teimlo bod ansawdd rhaglenni wedi gwaethygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mae un o bob saith (14%) yn teimlo bod safonau rhaglenni wedi gwella.

Ymhlith y rheini oedd yn teimlo bod ansawdd rhaglenni wedi gwaethygu yn 2016, y prif resymau dros yr ansawdd gwaeth oedd: mwy o ailddarllediadau, diffyg amrywiaeth a diffyg ansawdd yn gyffredinol. Ar y llaw arall, roedd y rheini oedd yn teimlo ei fod wedi gwella yn dweud bod hynny o ganlyniad i ansawdd cynnwys gwell ac amrywiaeth ehangach o ran rhaglenni.

Mae oedran yn tueddu i fod yn ddylanwad allweddol o ran agweddau at elfennau amrywiol o'r cyfryngau darlledu. Er enghraifft, o ran safonau rhaglenni teledu, oedolion hŷn (55 oed neu hŷn) sy'n fwyaf tebygol o deimlo bod safonau rhaglenni teledu wedi disgyn dros y 12 mis diwethaf.

Barn ynghylch cynnwys tramgwyddus

Fel y gwelwyd mewn blynyddoedd blaenorol, roedd y lefelau o dramgwydd personol ar ôl gweld rhywbeth ar y teledu yr un fath, sef un oedolyn o bob pump (19%). Pan ofynnwyd i'r

rheini oedd wedi'u tramgwyddo pa fathau o bethau oedd yn eu tramgwyddo, roedd y tri phrif beth a grybwyllwyd yn gysylltiedig â chynnwys rhywiol (33%), trais (31%) ac iaith anwedus (31%). Ymhlith y rheini oedd wedi'u tramgwyddo, yr ymateb mwyaf cyffredin i'r deunydd tramgwyddus oedd newid i sianel wahanol (43%).

Roedd bron i bedwar oedolyn o bob deg (37%) yn teimlo bod gormod o drais ar y teledu, ac roedd un o bob tri (33%) yn teimlo bod gormod o regi, ac un o bob pump (22%) yn teimlo bod gormod o ryw. Roedd oedolion 55 oed neu hŷn yn fwy tebygol o ddweud bod gormod o'r mathau hyn o gynnwys ar y teledu, ac oedolion iau rhwng 16 a 34 oed yn llai tebygol o ddweud hynny.

Mae'r farn ynghylch faint o gynnwys tramgwyddus sy'n dderbyniol i wylwyr wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda llai o oedolion yn cytuno bod 'gormod' o gynnwys rhywiol, trais ac iaith anwedus ar y teledu.

Ymwybyddiaeth o reoleiddio'r cyfryngau

Mae ymwybyddiaeth o reoleiddio'r cyfryngau yn dal yn uchel ymysg pob oedolyn. Er enghraifft, mae naw oedolyn o bob deg yn ymwybodol o'r trothwy ('watershed'), ac mae dau o bob tri (68%) yn ystyried 9pm yn amser derbyniol i ddechrau darlledu rhaglenni sy'n anaddas i blant. Mae'r mesur olaf hwn wedi cynyddu o chwech o bob deg (60%), sef y ffigur yn 2015.

Fodd bynnag, yn yr un modd â'r lefelau goddefgarwch ar gyfer mathau arbennig o gynnwys, mae ymwybyddiaeth o'r trothwy yn amrywio yn ôl oedran. Mae ymwybyddiaeth yn uwch ymysg oedolion hŷn nag oedolion iau.

Roedd ymwybyddiaeth o'r ffaith fod rhaglenni teledu yn cael eu rheoleiddio, gyda rheolau a chanllawiau ar gyfer beth sy'n gallu cael ei ddangos a beth sydd ddim, yn dal yn uchel yn 2016 (81%). Mae mwy na chwech o bob deg (63%) yn ymwybodol o reoleiddio radio.

Ymwybyddiaeth o safonau hysbysebu

I'r gwrthwyneb o'r ymwybyddiaeth o reoleiddio'r cyfryngau, mae ymwybyddiaeth oedolion o safonau hysbysebu yn dal yn gymharol isel. Er enghraifft, doedd y mwyafrif o oedolion ddim yn adnabod y symbol 'P' sy'n arwydd o osod cynnyrch mewn rhaglenni teledu; llwyddodd llai na dau oedolyn o bob deg i adnabod y symbol fel arwydd o osod cynnyrch – gyda hyn yn arbennig o wir ymysg unigolion 65 oed neu hŷn.

Barn ynghylch hysbysebion teledu

Er bod nifer gyffredinol y pryderon ynghylch hysbysebion teledu wedi gostwng ers y flwyddyn ddiwethaf (o 39% i 35%), gwylwyr hŷn (55 oed neu hŷn) yw'r mwyaf tebygol o fod yn bryderus o hyd.

Mae'r mwyafrif o wylwyr teledu (55%) yn dal yn teimlo bod gormod o egwyliau hysbysebu nag y byddai'n gwbl foddhaol iddynt, a hyn oedd y prif beth a grybwyllwyd gan yr un gwylwiwr o bob tri (35%) a ddywedodd bod ganddynt bryderon ynghylch hysbysebion teledu.